BHNOG

# Cylchlythyr
# Hydref 2023

## Archwiliad - Lle mae O- yn mynd?



Cynhaliodd ffrwd waith O - Grŵp Goruchwylio Cenedlaethol Iechyd Gwaed (BHNOG) archwiliad o dynged dros 500 uned o gelloedd gwaed coch grŵp O D negatif, a gyhoeddwyd i ysbytai ym mis Ionawr i fis Mawrth 2023.

Mae uchafbwyntiau data Cymru Gyfan yn cynnwys:

- Cafodd 49.6% o unedau eu trallwyso i gleifion O D negatif (dim yn argyfwng)
- Cafodd 11.0% eu trallwyso i gleifion nad oedd yn O D negatif, er mwyn osgoi TIMEX (Time Expiry)
- Rhoddwyd 10.2% ar gyfer defnydd brys
- Cafodd 7.8% eu gwastraffu: 6.6% TIMEX a 1.2% OTCOL (Out of Control Temperature)
- Cafodd 12.7% eu trosglwyddo o fewn y Bwrdd Iechyd

Cynhyrchwyd adroddiadau ar lefel Bwrdd Iechyd hefyd, sy'n datgelu rhywfaint o amrywiad lleol diddorol o feincnod Cymru Gyfan, ac sy'n nodi rhai ymyriadau penodol y gellid eu hystyried.

I gael mynediad at yr adroddiad hwn ar gyfer eich Bwrdd Iechyd, cysylltwch â'ch tîm trallwyso ysbyty, neu cysylltwch â ni drwy e-bostio:

## Derbyn samplau cyn-trallwyso

Mae 'Safonau Cymru ar gyfer Derbyn Samplau Cyn-trallwyso' wedi'u cynllunio i sicrhau diogelwch cleifion, ac i gynnal ansawdd y broses drallwyso drwy ddefnyddio dull cyson o dderbyn samplau.

Mae hyn o werth arbennig, gan y cydnabyddir bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn symud ysbyty/bwrdd iechyd yng Nghymru sawl gwaith yn ystod eu hyfforddiant/gyrfa, ac y bydd dull cenedlaethol Unwaith i Gymru yn sicrhau bod diogelwch ac ansawdd gofal yn cael ei gynnal ar draws GIG Cymru.



Mae diweddariadau i'r safonau hyn yn cynnwys yr argymhellion a gafodd eu gwneud yn Hysbysiad Diogelwch Cleifion Llywodraeth Cymru 2023 (066) ‘Safer Temporary Identification Criteria for Unknown or Unidentified Patients’. Cliciwch **yma** i weld y safonau.

## Diweddariad llif gwaith ICS

Mae arbed celloedd mewnweithredol (ICS) yn ffrwd waith allweddol BHNOG erbyn hyn, gyda chefnogaeth gweithgarwch Rhwydwaith ICS Cymru Gyfan (AWICSN) a dan arweiniad Dr Louise Webster, Anesthetydd Ymgynghorol ym Mwrdd Aneurin Bevan. Mae'r rhwydwaith wedi cael ei ailsefydlu'n ddiweddar ac erbyn hyn, mae ganddo gynrychiolaeth gan bob Bwrdd Iechyd. Mae'r rhwydwaith wedi:

- cynhyrchu a chyhoeddi fersiwn diwygiedig o ffurflen casglu data ICS. Gellir dod o hyd i adnoddau a grëwyd i gefnogi'r defnydd o'r fersiwn newydd hon yma.
- Gellir gweld uchafbwyntiau adroddiad ICS 2022-23 (o'r data a gynhyrchir gan y ffurflenni hyn) **yma**.

Mae set o safonau ICS a dangosyddion perfformiad allweddol wedi cael eu cynhyrchu a'u cyhoeddi gan AWICSN, gyda'r ffurflenni casglu data ICS hyn yn helpu i fodloni rhai o'r gofynion:

- Gellir dod o hyd  i'r Safonau ICS a'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol **yma**.


# Strategaeth 5 mlynedd GGC

Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru wedi cyhoeddi strategaeth ar gyfer 2023-28. Mae 'Gwasanaethau Gwaed a Thrawsblannu ar gyfer y Dyfodol' yn disgrifio sut y bydd y Gwasanaeth Iechyd yn gweithio gyda staff, rhoddwyr, cleifion a chymunedau i sicrhau eu bod yn darparu profiad diogel o ansawdd uchel wrth ddarparu trallwysiad gwaed.

Mae'r strategaeth wedi'i rhannu'n saith thema strategol, ac mae hi'n amlinellu sut y byddant yn cyflawni eu gweledigaeth "i gael eu cydnabod gan bobl Cymru a'n cyfoedion fel arweinydd mewn gwasanaeth trawsblannu a thrallwyso". Gallwch gyrchu'r ddogfen strategaeth lawn [yma](#).

Gallwch weld animeiddiad byr o'r strategaeth drwy


glicio [yma](#).




# Newidiadau yn y Tîm Iechyd Gwaed

Hoffem groesawu Louise Minty a Lis Davies, sydd wedi ymuno â Thîm Iechyd Gwaed GGC yn ddiweddar fel Cynghorydd Iechyd Gwaed a Gwyddonydd Clinigol Ymgynghorol dan Hyfforddiant; mae gan y ddau gyfoeth o wybodaeth a phrofiad trallwyso, ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda nhw yn y dyfodol.

Mae Dr Edwin Massey yn gadael ei rôl yn y tîm i ddechrau yn ei swydd fel Cyfarwyddwr Meddygol GGC. Hoffem ddiolch i Dr Massey am ei gyfraniad i waith y Tîm Iechyd Gwaed a'i gefnogaeth i BHNOG.



**Lis Davies**
**Gwyddonydd Clinigol**



**Louise Minty**
**Cynghorwrd Iechyd Gwaed**

## Dirprwy Gadeirydd BHNOG

Ar hyn o bryd, mae gan BHNOG swydd wag fel dirprwy gadeirydd; Gall unrhyw un sy'n dymuno mynegi diddordeb yn y cyfle cyffrous hwn gysylltu â **WBS.bloodhealthteam@wales.nhs.uk** neu Dr Brian Tehan **brian.tehan@wales.nhs.uk**, Cadeirydd presennol BHNOG i drafod ymhellach.

Mae'r cylchlythyr hwn wedi'i ddosbarthu ar ran y Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol.
Mae croeso i chi ei anfon ymlaen at gydweithwyr neu bartïon eraill sydd â diddordeb.
I gael rhagor o wybodaeth neu ddiweddariadau, cysylltwch â'r Tîm Iechyd Gwaed:
WBS.bloodhealthteam@wales.nhs.uk
Os nad ydych yn dymuno derbyn y cylchlythyr hwn rhagor, cysylltwch â:
WBS.bloodhealthteam@wales.nhs.uk